CYPE(6)-16-22 – Papur i'w nodi 1

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@senedd.cymru

24 Mehefin 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 22 Ebrill, a oedd yn gofyn am ddiweddariad i'r Pwyllgor am wasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru. Diolch hefyd am ganiatáu amser ychwanegol i gwblhau'r ymarfer yr oeddem eisoes wedi'i ddechrau gyda'r byrddau iechyd, fel y gellid defnyddio'r wybodaeth honno hefyd wrth lunio'r ymateb hwn.

Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth am sut y defnyddiwyd cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta fel rhan o'n rhaglen waith i 'ailosod' ein rhaglen gwella anhwylderau bwyta wrth inni ddod allan o'r pandemig Covid-19. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hystyried ochr yn ochr â cheisiadau'r byrddau iechyd am yr arian ychwanegol yr wyf wedi'i ddarparu ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta o 2022/23 ymlaen.

Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad sylweddol a rheolaidd i helpu'r byrddau iechyd i wella gwasanaethau anhwylderau bwyta. Nod y cyllid oedd cefnogi cynlluniau gwella a gâi eu llywio gan yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynodd adroddiad yn 2018. Nododd yr adolygiad annibynnol ystod eang o argymhellion, ac aethom ninnau ati i sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar elfennau allweddol, sylfaenol yr adolygiad er mwyn sicrhau newidiadau cynaliadwy i wasanaethau. Dyma nhw:

- Ad-drefnu gwasanaethau fel bod ymyrraeth gynharach.
- Cyflawni safonau NICE ar anhwylderau bwyta.
- Sicrhau mai am 4 wythnos ar y mwyaf y mae'n rhaid aros i gael mynediad arferol at wasanaethau anhwylderau bwyta.

Fodd bynnag, fel llawer o wasanaethau eraill, cafodd ein gwasanaethau anhwylderau bwyta eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig Covid-19 gyda chynnydd o dros 20% yn y galw mewn rhai ardaloedd, ochr yn ochr â chynnydd o ran pa mor acíwt a chymhleth yr oedd anghenion cleifion. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd o ran trawsnewid gwasanaethau a gwella mynediad at gymorth, ac mae pob bwrdd iechyd wrthi'n gweithio tuag at gyflawni safonau NICE ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

O ran amseroedd aros, nid yw'r adroddiadau rheolaidd presennol ar amseroedd perfformiad gwasanaethau iechyd meddwl ar hyn o bryd yn dangos y ffigurau yn ôl cyflwr (e.e. anhwylderau bwyta) ac rydym wedi ymrwymo i wella'r adroddiadau yn erbyn y targed aros o 4 wythnos. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ofyn am wybodaeth weithredol gan wasanaethau i ddangos cynnydd o ran lleihau amseroedd aros. Ar hyn o bryd, mae adroddiadau'r byrddau iechyd yn rhoi data cyfanredol anffurfiol sy'n dangos bod 3 o bob 4 o oedolion a phlant yn cael eu gweld o fewn 4 wythnos ar gyfartaledd. Bydd atgyfeiriadau brys yn cael eu gweld yn gynharach, a dywedir wrthym fod y rhan fwyaf o bobl sy'n aros yn cael cynnig cymorth wrth iddynt aros.

Rwyf wedi ymweld â rhai gwasanaethau'n ddiweddar i weld drosof fy hun y cynnydd sy'n cael ei wneud. Ar ymweliadau diweddar â Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan cefais gyfle i siarad ag aelodau o'u timau anhwylderau bwyta ac i ddysgu mwy am yr hyn y maent yn ei wneud i wella gwasanaethau yn eu hardaloedd; yr heriau y maent wedi'u hwynebu wrth barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig; a beth arall y gellir ei wneud i gefnogi gwasanaethau. Rydym bellach yn gweld cynnydd pendant ac arloesol o ran gwella gwasanaethau ledled Cymru ac mae crynodeb o'r gweithgarwch hwn wedi'i nodi yn **Atodiad A.**

Un her allweddol ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys anhwylderau bwyta, yw'r gweithlu a'r gallu i recriwtio i swyddi arbenigol. Bydd Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl a ddatblygwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu ateb hirdymor o ran gweithlu iechyd meddwl cynaliadwy. Ar hyn o bryd mae nifer o rolau arbenigol y mae byrddau iechyd wedi'i chael yn anodd recriwtio iddynt ac maent yn parhau i adolygu ac ystyried atebion eraill, dros dro, er mwyn darparu gwasanaeth digonol. Mae Cydweithrediad y GIG hefyd wedi gweithio gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i nodi bylchau mewn rolau seiciatreg mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta ledled Cymru ac i dynnu sylw at yr hyn sydd wedi gweithio'n dda mewn byrddau iechyd wrth recriwtio i'r meysydd arbenigol hyn.

Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r byrddau iechyd, rwyf wedi ymrwymo i sbarduno cynnydd yn y maes hwn. Rwyf wedi dyrannu £2.5 miliwn yn ychwanegol o 2022/23 i wella gwasanaethau anhwylderau bwyta – mae hyn yn ychwanegol at y £10 miliwn ehangach o Gyllid Gwella Gwasanaethau, y gellir defnyddio peth ohono hefyd i gefnogi gwasanaethau anhwylderau bwyta. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol a rheolaidd i gefnogi gwasanaethau, ac mae swyddogion wrthi'n ystyried ceisiadau gan fyrddau iechyd er mwyn defnyddio'r cyllid hwn. Un o amodau'r cyllid hwn fydd ailosod llwybrau a cherrig milltir i gyflawni'r amser aros o 4 wythnos a bodloni canllawiau NICE.

O ran yr angen am uned cleifion mewnol ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wrthi'n ymgynghori ar ei strategaeth sy'n cynnwys yr argymhelliad i ystyried dichonoldeb uned arbenigol yng Nghymru. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith yn dilyn yr ymgynghoriad, ond gallwn roi sicrwydd ein bod ar hyn o bryd yn trin dros 90% o blant a phobl ifanc sydd angen y lefel hon o ofal yng Nghymru.

Rwyf yn cydnabod mai dim ond un elfen o'r dull llawer ehangach sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, a allai gynyddu'r risg o anhwylderau bwyta, yw gwella gwasanaethau arbenigol. Dyna pam yr ydym yn mynd ati mewn sawl dull a modd gyda phartneriaid i wneud hyn.

Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol mewn cymorth haen 0/1 i ddarparu mynediad hawdd at gymorth iechyd meddwl, heb fod angen atgyfeiriad gan weithiwr iechyd proffesiynol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys buddsoddiad o £100,000 i BEAT i ehangu'r cymorth sydd ar

gael yng Nghymru. Mae'r cymorth ar-lein a'r cymorth gan gymheiriaid o bell a ddarperir gan BEAT wedi bod yn amhrisiadwy i lawer o bobl sydd angen y cymorth hwn, a bydd y cyllid yn eu helpu i barhau i fodloni'r lefelau uchel o alw a welir ar hyn o bryd. Wrth iddynt aros am driniaeth yn y GIG, gall clinigwyr hefyd atgyfeirio eu cleifion am gymorth mwy penodol drwy BEAT a gall unigolion hunanatgyfeirio hefyd. O fewn y Cyllid Gwella Gwasanaethau, rydym wedi darparu bron i £5m ar gyfer cyswllt gofal sylfaenol a chymorth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau haen 0/1. Nod y buddsoddiad hwn yw cefnogi ymyrraeth gynharach ar gyfer materion iechyd meddwl ac atal uwchgyfeirio cleifion at wasanaethau arbenigol. Bydd yn cefnogi gwasanaethau a ddarperir gan y bwrdd iechyd a'r rhai a ddarperir gan y trydydd sector.

Ar 15 Mawrth 2021, cyhoeddwyd ein fframwaith ar ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau cyson a theg o ymdrin â lles dysgwyr a chymuned ehangach yr ysgol. Darparwyd £9m gennym yn ystod 2021-22 i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith. Mae ein cyllideb ar gyfer 2022-23 i 2024-25 yn dangos ein hymrwymiad, gyda chynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o dros £43m o gyllid dros y tair blynedd, £12.2m yn ystod 2022-23; £14.4m 2023-24; a £16.6m 2024-25. Mae'r cyllid ar gyfer 2022-23 yn cynnwys £4.15m i awdurdodau lleol, er mwyn:

- ymestyn a gwella'r ddarpariaeth cwnsela mewn ysgolion yn sgil pandemig Covid-19 (£2.3m);
- darparu ymyriadau cyffredinol wedi'u targedu ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion [£800,000];
- cefnogi hyfforddiant athrawon a staff eraill yr ysgol ar eu lles eu hunain a lles plant (£650,000); a
- £400,000 i gefnogi anghenion lles plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Rydym hefyd yn darparu dros £5.3m yn ystod 2022-23 i fyrddau iechyd lleol i gefnogi'r gwaith o sefydlu gwasanaethau mewngymorth cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) mewn ysgolion. Mae'r gwasanaethau hyn yn trefnu bod ymarferwyr iechyd meddwl penodedig yn darparu ymgynghoriad, cyswllt, cyngor a hyfforddiant mewn ysgolion. Fel rhan o'n Strategaeth Pwysau Iach rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion ar fwyta'n iach, gan gynnwys gweithdai ar ddelwedd y corff.

Mae'r cynnydd i weithredu'r trefniadau newydd, cryfach gyda Chydweithrediad y GIG i ysgogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd bod nifer o staff yn symud. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn bellach ar y trywydd iawn ac mae Cydweithrediad y GIG yn gweithio gyda chlinigwyr o fyrddau iechyd i sefydlu grŵp clinigol newydd i weithio ochr yn ochr â'r is-grŵp anhwylderau bwyta. Ar ôl ei sefydlu, un o flaenoriaethau'r grŵp hwn fydd cefnogi byrddau iechyd i ddarparu data mwy cadarn ac amserol ar amseroedd aros ac adolygu cynnydd yn erbyn safonau NICE. Cytunwyd hefyd ar y trefniadau newydd ar gyfer y rôl Arweinydd Clinigol a byddant yn cael eu datblygu y mis hwn.

Byddaf yn cael diweddariadau rheolaidd a byddaf yn herio cynnydd yn y maes hwn drwy Fwrdd Cyflawni a Throsolwg Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yr wyf yn gadeirydd arno. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn sicrhau'r Pwyllgor y bydd cynnydd yn cael ei wneud er gwaethaf yr heriau ac y bydd buddsoddiad rheolaidd ychwanegol, ynghyd â gwaith arloesi'r byrddau iechyd mewn gwasanaethau a'r gwaith sy'n cael ei wneud gydag ysgolion, yn helpu i weud gwelliannau cynaliadwy. Ond dim ond un elfen o'n dull ehangach yw'r ffocws ar wasanaethau arbenigol – ac mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae yn y materion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach a all gynyddu'r risg o anhwylderau bwyta.

Yn gywir



Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Atodiad A – Cynnydd ar draws y Byrddau Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Mae cyllid ychwanegol wedi cefnogi adnoddau ar gyfer gweithredu'r tîm SPEED (tîm ymyrraeth gynnar wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc)
- Drwy ad-drefnu o fewn y gweithlu CAMHS a chynnydd mewn atgyfeiriadau sy'n cynnwys achosion risg isel/canolig/uchel, maent wedi cael cyfle i fynd i'r afael â'u llwybr atgyfeirio a'u llwybr clinigol i gleifion.
- Mae'r arian wedi cefnogi'r broses o recriwtio therapyddion arbenigol i helpu'r tîm anhwylderau bwyta i ddarparu therapïau a thriniaethau penodol fel yr argymhellwyd gan ganllawiau NICE
- Ym maes oedolion, mae atgyfeiriadau ar gyfer cleifion ag anhwylder bwyta bellach yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth anhwylder bwyta arbenigol a fydd yn cynnal yr asesiad cychwynnol.
- Mae desg ddyletswydd anhwylderau bwyta hefyd wedi'i chyflwyno, sy'n darparu asesiadau sgrinio a ffôn ar y diwrnod y derbynnir atgyfeiriad yn ogystal â slotiau asesu brys dyddiol. Mae hyn wedi eu galluogi i gyrraedd y targed o gynnal asesiad brys o fewn 48 awr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Defnyddiwyd arian ychwanegol ar hyfforddiant staff presennol ar fodel Maudsley, hyfforddiant CBT-T ar gyfer pwysau arferol mewn anhwylderau bwyta a chynhadledd ar anhwylder osgoi/cyfyngu cymeriant bwyd.
- Mae cymorth ychwanegol wedi'i roi i'r wardiau pediatreg lleol i gynorthwyo â phobl ifanc ag anhwylderau bwyta sydd wedi bod yn aros yn hir.
- Mae gwasanaethau CAMHS wedi buddsoddi cryn dipyn o amser rheoli a rheoli prosiectau i ddatblygiad anhwylderau bwyta, gan gynnwys y llwybr anhwylderau bwyta fel ffrwd waith benodol o fewn rhaglen Gwelliant wedi'i Dargedu CAMHS.
- Mae gwasanaethau anhwylderau bwyta wedi'u hehangu ledled y Gogledd drwy wella'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, gan ganiatáu i fylchau sylweddol yn y gwasanaethau a ddarperir (yn benodol Haen 2 a thriniaeth cleifion mewnol) gael sylw.
- O ganlyniad i gyllid trawsnewid a chyllid SIF, mae cynnydd wedi'i wneud o ran recriwtio, gan ganiatáu derbyn rhai atgyfeiriadau ar gyfer Haen 2.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- Defnyddiwyd cyllid i recriwtio i nifer o swyddi yn y gwasanaethau anhwylderau bwyta i blant ac oedolion. gan gynnwys therapyddion seicolegol, a dietegydd.
- Defnyddiwyd ystod o gontractau hyfforddiant a chontractau tymor byr i gynyddu darpariaethau.
- Mae capasiti'r gwasanaeth anhwylderau bwyta CAMHS Arbenigol wedi cynyddu wrth i 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ymuno ag ef.
- Mae'r adnodd staffio a'r cymysgedd sgiliau wedi cynyddu yn unol ag adolygiad 2018 ac mae wedi hynny wedi helpu i greu cynnydd pellach yn y capasiti i asesu ac ymyrryd ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed.
- Mae'r bwrdd iechyd wedi treialu rhaglen Beat Synergy, model ymyrraeth gynnar ar gyfer y rhai nad ydynt eto'n bodloni meini prawf diagnostig

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Defnyddiwyd arian i ddatblygu llwybr anhwylder bwyta arbenigol o fewn CAMHS
- Crëwyd tîm amlddisgyblaethol pwrpasol i ddarparu ymyriadau yn y gymuned yn seiliedig ar fodel Maudsley
- Mae gwasanethau gwell hefyd wedi ceisio datblygu cysylltiadau cryfach â gwasanaethau eraill gan gynnwys Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion, pediatreg ac asiantaethau allanol a datblygu llwybrau allweddol
- Mae'r bwrdd iechyd wedi parhau â chytundeb lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer darparu Gwasanaeth Haen 3 (trigolion Pen-y-bont ar Ogwr/oedolion) ac ar gyfer Arweinydd Clinigol a Dietegydd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

- Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu tîm anhwylderau bwyta arbenigol S-CAMHS i ategu'r timau amlddisgyblaethol a oedd eisoes yn darparu asesiadau ac ymyriadau clinigol
- Bwriedir i'r cynigion gwasanaeth diweddaraf ar gyfer Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta CAMHS gryfhau'r tîm amlddisgyblaethol o staff meddygol ac anfeddygol o ran asesu, rheoli risg a thrin.
- Yn y gwasanaethau i oedolion, cyflwynwyd cynigion i adeiladu ar arbenigedd y tîm i gefnogi'r maes gofal sylfaenol, gwasanaethau arbenigol nad ydynt yn ymwneud ag anhwylderau bwyta, addysg, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd ac asiantaethau eraill i weithio mewn partneriaeth.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- Mae Powys wedi datblygu eu gwasanaethau ymhellach i ddarparu dulliau adnabod cynnar, asesu a thrin arbenigol yn unol â chanllawiau NICE 2017 mewn Gofal Sylfaenol neu Eilaidd
- Mae'r bwrdd iechyd yn darparu mynediad ychwanegol at ymyriadau triniaeth priodol ac amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy ddarparu amser ychwanegol i ymarferwyr deietegol a chapasiti therapi galwedigaethol anhwylder bwyta arbenigol
- Canolbwyntiwyd ar helpu i sicrhau trosglwyddiadau di-dor i bobl ifanc sydd angen gwasanaethau i oedolion, gwella mynediad at arbenigedd clinigol yn y man mynediad ac yn fwy lleol i gartref y claf, a darparu gwybodaeth o ansawdd da i gleifion a gofalwyr
- Mae rolau ymarferwyr Band 6 newydd yn gweithio i gryfhau a chefnogi'r ddarpariaeth CAMHS arbenigol bresennol drwy ddarparu cymorth therapiwtig ychwanegol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr
- Mae clinigau iechyd corfforol wedi'u sefydlu i gefnogi darpariaeth CAMHS arbenigol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- Mae dwy swydd Band 6 wedi'u recriwtio i weithio ar draws Haen 1 a 2 ac i gynnig mewnbwn a chymorth uniongyrchol i bobl ifanc 16 oed a throsodd, gan ganolbwyntio'n benodol ar gleifion yn y garfan a reolir gan ofal sylfaenol sydd islaw'r trothwy ar gyfer gofal eilaidd
- Defnyddiwyd cyllid pellach i greu tîm amlddisgyblaethol mwy cyflawn a fyddai'n gwella canlyniadau clinigol a chanlyniadau cleifion
- Mae'r swyddi allweddol y recriwtiwyd iddynt yn cynnwys dietegydd, therapydd a dadansoddwr data
- Mae cynlluniau ar y gweill i recriwtio i'r holl swyddi sy'n weddill a'u gosod o fewn y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol i ddarparu asesiadau ac ymyrraeth gynnar.